



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2021 Rhif 1080 (Cy. 255)**

**2021 No. 1080 (W. 255)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf (Trefniadau  
Etholiadol) 2021

The County Borough of Rhondda  
Cynon Taf (Electoral  
Arrangements) Order 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mawrth 2020 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 52 i 46, ond argymhellwyd bod nifer y cynghorwyr yn parhau yn 75.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gweithredu argymhellion ynghylch newidiadau i ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol ar gyfer rhai cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae erthygl 4 yn gwneud newidiadau i'r ffin rhwng wardiau cymunedol Ton-teg a Phentre'r Eglwys yng nghymuned Llanilltud Faerdref. Mae erthygl 5 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Pentre'r Eglwys.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order implements the recommendations of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in March 2020 on its review of the electoral arrangements for the County Borough of Rhondda Cynon Taf. The Commission's Report proposed a reduction in the number of electoral wards from 52 to 46, but recommended the number of councillors to remain at 75.

This Order implements the Commission's recommendations, with modifications.

Article 3 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County Borough of Rhondda Cynon Taf and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County Borough of Rhondda Cynon Taf.

This Order also implements recommendations for changes to community boundaries and electoral arrangements for some communities within the County Borough of Rhondda Cynon Taf.

Article 4 makes changes to the boundary between the community wards of Ton-teg and Church Village within the community of Llantwit Fardre. Article 5 sets out the number of members to be elected for the Church Village ward.

Mae erthygl 6 yn diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Pont-y-clun, ac mae erthygl 7 yn creu wardiau cymunedol newydd Dwyrain Pont-y-clun, Canol Pont-y-clun a Gorllewin Pont-y-clun. Mae erthygl 8 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros y wardiau hyn.

Mae erthygl 9 yn gwneud newidiadau i ffiniau cymunedau Ystrad, Llwynypia a Threallaw.

Mae erthygl 10 yn darparu ar gyfer trosglwyddo ardal o gymuned Tref Pontypridd i gymuned Trehafod.

Mae erthygl 11 yn diddymu wardiau cymunedol y Ddraenen-wen, Ilan, Canol Rhydfelen a Rhydfelen Isaf yng nghymuned Tref Pontypridd. Mae erthygl 12 yn creu wardiau cymunedol newydd Canol Rhydfelen, y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf, a Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf. Mae erthygl 13 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros y wardiau newydd hyn, ac yn gwneud newidiadau i nifer yr aelodau sydd i'w hethol yn wardiau Cwm Rhondda a Threfforest.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "9" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Cymru), a chyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

Article 6 abolishes the community wards within the community of Pont-y-clun, and article 7 creates the new community wards of Pontyclun East, Pontyclun Central and Pontyclun West. Article 8 sets out the number of members to be elected for these wards.

Article 9 makes changes to the boundaries of the communities of Ystrad, Llwyn-y-pia and Trealaw.

Article 10 provides for the transfer of an area from the community of Pontypridd Town to the community of Trehafod.

Article 11 abolishes the community wards of Hawthorn, Ilan, Rhydfelen Central and Rhydfelen Lower within the community of Pontypridd Town. Article 12 creates the new community wards of Rhydfelen Central, Hawthorn and Lower Rhydfelen, and Upper Rhydfelen and Glyn-taf. Article 13 sets out the number of members to be elected for these new wards, and makes changes to the number of members to be elected in the Rhondda and Treforest wards.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Prints of the maps labelled "1" to "9" to which this Order relates are deposited in the office of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division), and with Rhondda Cynon Taf County Borough Council. Prints deposited with Rhondda Cynon Taf County Borough Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

**2021 Rhif 1080 (Cy. 255)**

**2021 No. 1080 (W. 255)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Gorchymyn Bwrdeistref Sirol  
Rhondda Cynon Taf (Trefniadau  
Etholiadol) 2021**

**The County Borough of Rhondda  
Cynon Taf (Electoral  
Arrangements) Order 2021**

*Gwnaed* 22 Medi 2021

*Made* 22 September 2021

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

*Coming into force in accordance with article  
1(2) and (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(1), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(2) (“Deddf 2013”), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mawrth 2020 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(1) has, in accordance with section 36(5) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013(2) (“the 2013 Act”), submitted to the Welsh Ministers a report dated March 2020 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County Borough of Rhondda Cynon Taf.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a), (b) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i’r argymhellion hynny gydag addasiadau.

The Welsh Ministers have, after consideration of the matters referred to and set out in sections 37(2)(a), (b) and (c) of the 2013 Act, decided to give effect to those recommendations with modifications.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i’r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

In accordance with section 37(3) of the 2013 Act, more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of their powers conferred by section 37(1) of 2013 Act.

---

(1) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (“Deddf 1972”), ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) (“Deddf 2013”), ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi’r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

---

(1) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) (“the 1972 Act”). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) (“the 2013 Act”). The 2013 Act re-names the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2).

(2) 2013 dccc 4.

(2) 2013 anaw 4.

## Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2021.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(1).

## Dehongli

### 2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Rheoliadau” (“*the Regulations*”) yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(2);

ystyr “ward etholiadol” (“*electoral ward*”) yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn gyfeiriad at un o'r 9 map a farciwyd “Map Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021” a adnewwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau, a labelwyd “1” i “9”, ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

## Trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

3.—(1) Mae wardiau etholiadol Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

## Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the County Borough of Rhondda Cynon Taf (Electoral Arrangements) Order 2021.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 October 2021.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2022(1).

## Interpretation

### 2. In this Order—

“electoral ward” (“*ward etholiadol*”) means any area for which members are elected to Rhondda Cynon Taf County Borough Council;

“the Regulations” (“*y Rheoliadau*”) means the Local Government Area Changes Regulations 1976(2);

any reference to a map means one of the 9 maps marked “Map of the County Borough of Rhondda Cynon Taf (Electoral Arrangements) Order 2021” deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations, labelled “1” to “9”, and a reference to a numbered map is a reference to the map that bears that number;

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature;

words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, except so far as a contrary intention appears.

## Electoral arrangements for the County Borough of Rhondda Cynon Taf

3.—(1) The electoral wards of the County Borough of Rhondda Cynon Taf, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, are abolished.

(1) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(2) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchymynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchymynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(1) The Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/1269 (W. 220)) amends section 26(1) of the 1972 Act to provide that the year in which the ordinary elections of councillors of local authorities shall take place is 2022 instead of 2021.

(2) S.I. 1976/246. Section 74(3) of the 2013 Act provides that the Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the 1972 Act.

(2) Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ei rhannu'n 46 o wardiau etholiadol, a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer yr aelodau o'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1).

#### **Cymuned Llanilltud Faerdref: newidiadau i ffiniau ward gymunedol**

4. Mae'r rhan o ward Ton-teg ward o gymuned Llanilltud Faerdref a ddangosir â llinellau ar Fap 1 wedi ei throsglwyddo i ward Pentre'r Eglwys o gymuned Llanilltud Faerdref.

#### **Cymuned Llanilltud Faerdref: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

5. Nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Pentre'r Eglwys o gymuned Llanilltud Faerdref yw 5.

#### **Cymuned Pont-y-clun: diddymu wardiau cymunedol a'u creu**

6. Mae wardiau cymunedol Cefnyrhendy, y Groesfaen, Maes-y-felin a Meisgyn yng nghymuned Pont-y-clun wedi eu diddymu.

7. Mae cymuned Pont-y-clun i'w rhannu i ffurfio'r wardiau a ganlyn—

- (a) ward Dwyrain Pont-y-clun a ddangosir â llinellau ar Fap 2;
- (b) ward Canol Pont-y-clun a ddangosir â llinellau ar Fap 3;
- (c) ward Gorllewin Pont-y-clun a ddangosir â llinellau ar Fap 4.

(2) The County Borough of Rhondda Cynon Taf is divided into 46 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of the council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

(5) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the Local Government Act 1972(1).

#### **The community of Llantwit Fardre: changes to community ward boundaries**

4. The part of the Ton-teg ward of the community of Llantwit Fardre shown hatched on Map 1 is transferred to the Church Village ward of the community of Llantwit Fardre.

#### **The community of Llantwit Fardre: consequential changes to electoral arrangements**

5. The number of members to be elected for the Church Village ward of the community of Llantwit Fardre is 5.

#### **The community of Pont-y-clun: abolition and creation of community wards**

6. The community wards of Cefnyrhendy, Groesfaen, Maes-y-felin and Miskin in the community of Pont-y-clun are abolished.

7. The community of Pont-y-clun is to be divided into the following wards—

- (a) the Pontyclun East ward shown hatched on Map 2;
- (b) the Pontyclun Central ward as shown hatched on Map 3;
- (c) the Pontyclun West ward as shown hatched on Map 4.

(1) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(1) 1972 c. 70; section 58 of the 1972 Act was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the 2013 Act, subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

**Cymuned Pont-y-clun: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**8. Yng nghymuned Pont-y-clun—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Dwyrain Pont-y-clun yw 3;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Canol Pont-y-clun yw 4;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Gorllewin Pont-y-clun yw 4.

**Cymunedau Llwynypia, Trealaw ac Ystrad: newidiadau i ffiniau cymunedol**

9.—(1) Mae'r rhan o gymuned Ystrad a ddangosir â llinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i gymuned Llwynypia.

(2) Mae'r rhan o gymuned Trealaw a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 5 wedi ei throsglwyddo i gymuned Llwynypia.

**Cymunedau Trehafod a Thref Pontypridd: newidiadau i ffiniau cymunedol**

10. Mae'r rhan o gymuned Tref Pontypridd a ddangosir â llinellau ar Fap 6 wedi ei throsglwyddo i gymuned Trehafod.

**Cymuned Tref Pontypridd: diddymu wardiau cymunedol a'u creu**

11. Mae wardiau cymunedol y Ddraenen-wen, Ilan, Canol Rhydfelen, a Rhydfelen Isaf yng nghymuned Tref Pontypridd wedi eu diddymu.

12. Mae'r wardiau cymunedol a ganlyn wedi eu ffurfio yng nghymuned Tref Pontypridd—

- (a) ward Canol Rhydfelen a ddangosir â llinellau ar Fap 7;
- (b) ward y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf a ddangosir â llinellau ar Fap 8;
- (c) ward Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf a ddangosir â llinellau ar Fap 9.

**Cymuned Tref Pontypridd: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**13. Yng nghymuned Tref Pontypridd—**

- (a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Canol Rhydfelen yw 2;
- (b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf yw 2;
- (c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf yw 2;

**The community of Pont-y-clun: consequential changes to electoral arrangements**

**8. In the community of Pont-y-clun—**

- (a) the number of members to be elected for the Pontyclun East ward is 3;
- (b) the number of members to be elected for the Pontyclun Central ward is 4;
- (c) the number of members to be elected for the Pontyclun West ward is 4.

**The communities of Llwyn-y-pia, Trealaw and Ystrad: changes to community boundaries**

9.—(1) The part of the community of Ystrad shown hatched on Map 5 is transferred to the community of Llwyn-y-pia.

(2) The part of the community of Trealaw shown cross-hatched on Map 5 is transferred to the community of Llwyn-y-pia.

**The communities of Trehafod and Pontypridd Town: changes to community boundaries**

10. The part of the community of Pontypridd Town shown hatched on Map 6 is transferred to the community of Trehafod.

**The community of Pontypridd Town: abolition and creation of community wards**

11. The community wards of Hawthorn, Ilan, Rhydfelen Central, and Rhydfelen Lower in the community of Pontypridd Town are abolished.

12. There are constituted the following community wards in the community of Pontypridd Town—

- (a) the Rhydfelen Central ward shown hatched on Map 7;
- (b) the Hawthorn and Lower Rhydfelen ward shown hatched on Map 8;
- (c) the Upper Rhydfelen and Glyn-taf ward shown hatched on Map 9.

**The community of Pontypridd Town: consequential changes to electoral arrangements**

**13. In the community of Pontypridd Town—**

- (a) the number of members to be elected for the Rhydfelen Central ward is 2;
- (b) the number of members to be elected for the Hawthorn and Lower Rhydfelen ward is 2;
- (c) the number of members to be elected for the Upper Rhydfelen and Glyn-taf ward is 2;

- (d) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Rhondda yw 3;
- (e) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Trefforest yw 3.

- (d) the number of members to be elected for the Rhondda ward is 3;
- (e) the number of councillors to be elected for the Treforest ward is 3.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
22 Medi 2021

Minister for Finance and Local Government, one of  
the Welsh Ministers  
22 September 2021

ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER  
AELODAU'R CYNGOR

Tabl

<i>Colofn (1)</i>	<i>Colofn (2)</i>	<i>Colofn (3)</i>	<i>Colofn (4)</i>
<i>Enw Saesneg y ward etholiadol</i>	<i>Enw Cymraeg y ward etholiadol</i>	<i>Ardal y ward etholiadol</i>	<i>Nifer aelodau'r cyngor</i>
Aberaman	Aberaman	Cymunedau Gogledd Aberaman a De Aberaman	3
Abercynon	Abercynon	Cymuned Abercynon	2
Aberdare East	Dwyrain Aberdâr	Cymuned Dwyrain Aberdâr	2
Aberdare West and Llwydcoed	Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed	Cymunedau Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed	3
Beddau and Tyn-y-nant	Beddau a Thyn-y-nant	Wardiau Beddau a Thyn-y-nant o gymuned Llanilltud Faerdref	2
Brynna and Llanharan	Brynna a Llanharan	Wardiau Brynna, Llanilid a Llanharan o gymuned Llanharan	3
Church Village	Pentre'r Eglwys	Ward Pentre'r Eglwys o gymuned Llanilltud Faerdref	2
Cilfynydd	Cilfynydd	Ward Cilfynydd o gymuned Tref Pontypridd	1
Cwm Clydach	Cwm Clydach	Cymuned Cwm Clydach	1
Cwmbach	Cwm-bach	Cymuned Cwm-bach	2
Cymer	Cymer	Cymunedau Cymer a Threhafod	2
Ferndale and Maerdy	Glynrhedynog a'r Maerdy	Cymunedau Glynrhedynog a'r Maerdy	2
Gilfach-goch	Gilfach-goch	Cymuned Gilfach-goch	1
Glyn-coch	Glyn-coch	Ward Glyn-coch o gymuned Tref Pontypridd	1
Graig and Pontypridd West	Y Graig a Gorllewin Pontypridd	Wardiau y Graig a Rhondda o gymuned Tref Pontypridd	2
Hawthorn and Lower Rhydfelen	Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf	Ward y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf o gymuned Tref Pontypridd	1
Hirwaun, Penderyn and Rhigos	Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos	Cymunedau Hirwaun a'r Rhigos	2



Llanharry	Llanhari	Ward Llanhari o gymuned Llanhari	1
Llantrisant and Talbot Green	Llantrisant a Thonysguboriau	Wardiau Tref Llantrisant a Thonysguboriau o gymuned Llantrisant	2
Llantwit Fardre	Llanilltud Faerdref	Wardiau Efail Isaf a Llanilltud Faerdref o gymuned Llanilltud Faerdref	2
Llwyn-y-pia	Llwynypia	Cymuned Llwynypia	1
Mountain Ash	Aberpennar	Cymunedau Dwyrain Aberpennar a Gorllewin Aberpennar	2
Penrhiw-ceibr	Penrhiw-ceibr	Cymuned Penrhiw-ceibr	2
Pentre	Pentre	Cymuned Pentre	2
Pen-y-graig	Pen-y-graig	Cymuned Pen-y-graig	2
Pen-y-waun	Pen-y-waun	Cymuned Pen-y-waun	1
Pontyclun Central	Canol Pont-y-clun	Ward Canol Pont-y-clun o gymuned Pont-y-clun	1
Pontyclun East	Dwyrain Pont-y-clun	Ward Dwyrain Pont-y-clun o gymuned Pont-y-clun	1
Pontyclun West	Gorllewin Pont-y-clun	Ward Gorllewin Pont-y-clun o gymuned Pont-y-clun a ward Tylegarw o gymuned Llanhari	1
Pontypridd Town	Tref Pontypridd	Ward Tref Pontypridd o gymuned Tref Pontypridd	1
Porth	Porth	Cymuned Porth	2
Rhydfelen Central	Canol Rhydfelen	Ward Canol Rhydfelen o gymuned Tref Pontypridd	1
Taff's Well	Ffynnon Taf	Cymuned Ffynnon Taf	1
Ton-teg	Ton-teg	Ward Ton-teg o gymuned Llanilltud Faerdref	1
Tonypandy	Tonypandy	Cymuned Tonypandy	1
Tonyrefail East	Dwyrain Tonyrefail	Wardiau Coedelái, Collena a Thylcha o gymuned Tonyrefail	2
Tonyrefail West	Gorllewin Tonyrefail	Wardiau Penrhiw-fer, Tretomas a Thyn-y-bryn o gymuned Tonyrefail	2
Trallwng	Trallwng	Ward Trallwng o gymuned Tref Pontypridd	1
Trealaw	Trealaw	Cymuned Trealaw	1

Treforest	Trefforest	Ward Trefforest o gymuned Tref Pontypridd	1
Treherbert	Treherbert	Cymuned Treherbert	2
Treorchy	Treorci	Cymuned Treorci	2
Tylorstown and Ynyshir	Tylorstown ac Ynys-hir	Cymunedau Tylorstown ac Ynys-hir	2
Upper Rhydfelen and Glyn-taf	Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf	Ward Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf o gymuned Tref Pontypridd	1
Ynysybwl	Ynys-y-bwl	Cymuned Ynys-y-bwl a Choed-y-cwm	2
Ystrad	Ystrad	Cymuned Ystrad	2

©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE

Article 3

### NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

**Table**

<i>Column (1)</i>	<i>Column (2)</i>	<i>Column (3)</i>	<i>Column (4)</i>
<i>English language name of electoral ward</i>	<i>Welsh language name of electoral ward</i>	<i>Area of electoral ward</i>	<i>Number of members of the council</i>
Aberaman	Aberaman	The communities of Aberaman North and Aberaman South	3
Abercynon	Abercynon	The community of Abercynon	2
Aberdare East	Dwyrain Aberdâr	The community of Aberdare East	2
Aberdare West and Llwydcoed	Gorllewin Aberdâr a Llwydcoed	The communities of Aberdare West and Llwydcoed	3
Beddau and Tyn-y-nant	Beddau a Thyn-y-nant	The Beddau and Tyn-y-nant wards of the community of Llantwit Fardre	2
Brynna and Llanharan	Brynna a Llanharan	The Brynna, Llanilid and Llanharan wards of the community of Llanharan	3
Church Village	Pentre'r Eglwys	The Church Village ward of the community of Llantwit Fardre	2
Cilfynydd	Cilfynydd	The Cilfynydd ward of the community of Pontypridd Town	1
Cwm Clydach	Cwm Clydach	The community of Cwm Clydach	1
Cwmbach	Cwm-bach	The community of Cwmbach	2
Cymer	Cymer	The communities of Cymmer and Trehafod	2
Ferndale and Maerdy	Glynrhedynog a'r Maerdy	The communities of Ferndale and Maerdy	2
Gilfach-goch	Gilfach-goch	The community of Gilfach Goch	1
Glyn-coch	Glyn-coch	The Glyncoch ward of the community of Pontypridd Town	1
Graig and Pontypridd West	Y Graig a Gorllewin Pontypridd	The Graig and Rhondda wards of the community of Pontypridd Town	2

Hawthorn and Lower Rhydfelen	Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf	The Hawthorn and Lower Rhydfelen ward of the community of Pontypridd Town	1
Hirwaun, Penderyn and Rhigos	Hirwaun, Penderyn a'r Rhigos	The communities of Hirwaun and Rhigos	2
Llanharry	Llanhari	The Llanharry ward of the community of Llanharry	1
Llantrisant and Talbot Green	Llantrisant a Thonysguboriau	The Llantrisant Town and Talbot Green wards of the community of Llantrisant	2
Llantwit Fardre	Llanilltud Faerdref	The Efail Isaf and Llantwit Fardre wards of the community of Llantwit Fardre	2
Llwyn-y-pia	Llwynypia	The community of Llwyn-y-pia	1
Mountain Ash	Aberpennar	The communities of Mountain Ash East and Mountain Ash West	2
Penrhiw-ceibr	Penrhiw-ceibr	The community of Penrhiw-ceibr	2
Pentre	Pentre	The community of Pentre	2
Pen-y-graig	Pen-y-graig	The community of Pen-y-graig	2
Pen-y-waun	Pen-y-waun	The community of Pen-y-waun	1
Pontyclun Central	Canol Pont-y-clun	The Pontyclun Central ward of the community of Pont-y-clun	1
Pontyclun East	Dwyrain Pont-y-clun	The Pontyclun East ward of the community of Pont-y-clun	1
Pontyclun West	Gorllewin Pont-y-clun	The Pontyclun West ward of the community of Pont-y-clun and the Tyle-garw ward of the community of Llanharry	1
Pontypridd Town	Tref Pontypridd	The Town ward of the community of Pontypridd Town	1
Porth	Porth	The community of Porth	2
Rhydfelen Central	Canol Rhydfelen	The Rhydfelen Central ward of the community of Pontypridd Town	1
Taff's Well	Ffynnon Taf	The community of Taffs Well	1

Ton-teg	Ton-teg	The Ton-teg ward of the community of Llantwit Fardre	1
Tonypandy	Tonypandy	The community of Tonypandy	1
Tonyrefail East	Dwyrain Tonyrefail	The Coedely, Collena and Tylcha wards of the community of Tonyrefail	2
Tonyrefail West	Gorllewin Tonyrefail	The Penrhiw-fer, Thomastown and Tynybryn wards of the community of Tonyrefail	2
Trallwng	Trallwng	The Trallwng ward of the community of Pontypridd Town	1
Trealaw	Trealaw	The community of Trealaw	1
Treforest	Trefforest	The Treforest ward of the community of Pontypridd Town	1
Treherbert	Treherbert	The community of Treherbert	2
Treorchy	Treorci	The community of Treorchy	2
Tylorstown and Ynyshir	Tylorstown ac Ynys-hir	The communities of Tylorstown and Ynyshir	2
Upper Rhydfelen and Glyn-taf	Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf	The Upper Rhydfelen and Glyn-taf ward of the community of Pontypridd Town	1
Ynysybwl	Ynys-y-bwl	The community of Ynysybwl and Coed-y-Cwm	2
Ystrad	Ystrad	The community of Ystrad	2

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.





£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1080>

ISBN 978-0-348-39119-0



9 780348 391190